

CYNLLUNIO A DATBLYGU YN YR AHNE:

ADRODDIAD BLYNYDDOL 2020-2021

Cefndir

1. Mae'r amgylchedd adeiledig yn un o nodweddion arbennig yr AHNE ac yn cyfrannu tuag at gymeriad ac ymddangosiad yr ardal. Mae yna alw am ddatblygiadau newydd yn yr AHNE a'r ardal gyfagos oherwydd bod yr ardal yn lle atyniadol i fyw, gweithio ac ymweld â hi, ac mae angen gofal arbennig er mwyn sicrhau bod unrhyw ddatblygiad newydd yn cyd-fynd yn dda â'r dirwedd. Swyddogaeth bwysig y Cyd-bwyllgor a'r Bartneriaeth yw cynghori ar gynigion datblygu a pholisïau sy'n effeithio ar yr AHNE.

Ymgynghoriadau

2. Cyfanswm yr ymgynghoriadau a gyfeiriwyd at yr AHNE yn 2020-21 oedd 301 – cynnydd o gymharu â'r llynedd (274), sydd yn annisgwyl o ystyried bod 2020-21 wedi cael ei heffeithio'n sylweddol gan bandemig Covid-19. Roedd gostyngiad yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn, ond gwelwyd cynnydd sylweddol mewn ymgynghoriadau yn ystod yr ail hanner.
3. Roedd y rhan fwyaf o ymgynghoriadau (217 mewn nifer, 72% o'r cyfanswm) yn geisiadau cynllunio neu geisiadau cysylltiedig ar gyfer datblygu, a gyfeiriwyd gan y tri awdurdod cynllunio. Roedd y mwyafrif o'r rhain o Sir Ddinbych (81%), yna Sir y Fflint (19%). Cyfeiriwyd dau ymgynghoriad cynllunio gan Wrecsam. Mae ceisiadau ffurfiol ac anffurfiol am gyngor cyn ac ar ôl ymgeisio yn parhau i gynyddu (71 cais), sy'n adlewyrchu cynnydd sylweddol o'r nifer y llynedd (46) ac yn cyfrif am 24% o'r holl ymgynghoriadau. Roedd materion yn ymwneud â pholisi (6) yn cyfrif am 3% o'r holl ymgynghoriadau, sy'n is na'r blynyddoedd diwethaf. Gall hyn fod


yn ymateb i bandemig Covid-19 wrth i gyrff cyhoeddus droi eu sylw at waith yn ymwneud â'r pandemig. Roedd apeliadau cynllunio (5) i gyfrif am weddill yr ymgynghoriadau.

4. Mae crynodeb o'r holl ymgynghoriadau cynllunio y bu i'r AHNE ymateb iddynt yn ystod y flwyddyn ar gael yn yr atodiadau sy'n ymdrin â'r ddau gyfnod hanner blwyddyn. Mae'r rhain yn cynnwys manylion y cynnig, crynodeb o sylwadau'r AHNE, penderfyniad yr Awdurdod Cynllunio Lleol (os yw penderfyniad wedi ei wneud) ac asesiad o'u hymateb i sylwadau'r AHNE.
5. Mae'r categori mwyaf o gynigion yn parhau i fod yn ddatblygiadau deiliad tŷ (35%) ac yna tai newydd (23%), gan gynnwys addasiadau. Mae nifer y cynigion datblygu sy'n ymwneud â thwristiaeth yn gyson (18%) ac yn parhau i fod y trydydd categori datblygu mwyaf, cyn amaethyddiaeth (10%), cynigion masnachol/manwerthu a diwydiannol (4%) a datblygiadau cyfleustodau/ygni (3%). Roedd gweddill yr ymgynghoriadau'n cynnwys gwaith mynediad, cynigion mwynau, datblygiadau cymunedol/addysgol a cheisiadau Adeilad Rhestredig.
6. Rhoddwyd caniatâd i'r rhan fwyaf o geisiadau cynllunio (81%), sy'n gymeradwy â'r raddfa gymeradwyo mewn blynyddoedd blaenorol. Dim ond 8% o geisiadau a wrthodwyd ond roedd cynnydd yng nghyfran y ceisiadau a dynnwyd yn ôl gan yr ymgeisydd cyn gwneud penderfyniad arnynt (11%).
7. Ni chododd yr AHNE wrthwynebiad i'r rhan fwyaf o geisiadau, dim ond awgrymu newidiadau i'r dyluniad, deunyddiau amgen neu dirlunio ychwanegol neu amodau goleuo er mwyn ceisio cadw a gwella cymeriad ac ymddangosiad yr AHNE. Cafwyd 21 gwrthwynebiad ffurfiol i gynigion datblygu, a mynegwyd pryderon sylweddol am 14 cais pellach, sy'n gymeradwy â'r sefyllfa y llynedd. Mewn nifer o achosion mae cynigion datblygu yn cael eu haddasu i adlewyrchu safbwyntiau'r AHNE ac yn arwain at well canlyniad datblygu.

Ymateb yr Awdurdod Cynllunio Lleol i Sylwadau'r AHNE

8. Mae dadansoddiad o ymatebion yr Awdurdod Cynllunio Lleol i sylwadau o sylwedd a wnaed gan yr AHNE ar geisiadau cynllunio a benderfynwyd arnynt (gweler y siart cylch trosodd) yn dangos bod y mwyafrif o'r sylwadau (79%) a wnaed gan yr AHNE wedi eu derbyn yn llawn neu'n rhannol. Dim ond 21% o sylwadau na chafodd eu derbyn ac na weithredwyd arnynt gan yr Awdurdodau Cynllunio Lleol. Er fod hyn ychydig yn is na'r flwyddyn flaenorol pan dderbyniwyd 81% o'r sylwadau'n llawn neu'n rhannol, calonogol yw nodi bod cynnydd yng nghyfran y sylwadau a dderbyniwyd yn llawn o 51% y llynedd i 56% yn y flwyddyn bresennol.
9. O'r 19 cais cynllunio ble na dderbyniwyd sylwadau'r AHNE gan yr Awdurdodau Cynllunio Lleol, penderfynwyd ar 18 cais gan Sir Ddinbych a 1 gan Sir y Fflint. Ni chafwyd achosion yn Wrecsam ble na chafodd sylwadau'r AHNE eu derbyn yn llawn neu'n rhannol. Gan ystyried yr holl benderfyniadau sydd wedi'u gwneud gan bob awdurdod, roedd canran yr achosion ble na dderbyniwyd neu weithredwyd ar sylwadau'r AHNE yn 23% yn Sir Ddinbych ac yn 9% yn Sir y Fflint. Roedd y ffigyrau cymharol ar gyfer Sir Ddinbych dros y tair blynedd ddiwethaf yn 25% yn 2017-18, 20% yn 2018-19 a 18% yn 2019-20. Roedd y data cyfwerth ar gyfer y gyfran o geisiadau a benderfynwyd yn Sir y Fflint ble na chafodd sylwadau'r AHNE eu derbyn yn 36% yn 2017-18, 16% yn 2018-19 a 12% yn 2019-20.
10. Ar y cyfan, roedd y sylwadau a wrthodwyd yn ymwneud â dyluniad, deunyddiau, goleuo a thirlunio, ac awgrymiadau ar gyfer gwella fel rhan o brosiect datblygu.

Ystyriaeth yr ACLI o Sylwadau'r AHNE 2020-21



Apeliadau Cynllunio

11. Cyfeiriwyd pum apêl cynllunio at yr AHNE yn ystod y flwyddyn. Penderfynwyd a gwrthodwyd pob un gan yr arolygiaeth. Roedd y mwyafrif o'r apeliadau'n ymwneud â cheisiadau am dai newydd o fewn yr AHNE yng Ngharrog, Llanbedr DC, Llandynan ac Eryrys. Bu i'r AHNE wrthwynebu neu fynegi pryderon sylweddol am y ceisiadau hyn i gyd, ac fe gafodd hynny ei ystyried gan yr arolygiaeth.

Datblygiad Heb Awdurdod

12. Yn ystod y flwyddyn, cyfeiriwyd 31 achos posibl o ddatblygiad heb awdurdod a oedd yn effeithio ar yr AHNE at dimau gorfodi'r Awdurdod Cynllunio Lleol er mwyn iddynt ymchwilio iddynt. Mae hyn yn gynydd mawr o'r 25 achos a adroddwyd y llynedd. Mae'n siomedig bod rhai datblygwyr a thirfeddianwyr, yn ôl pob golwg, wedi manteisio ar argyfwng y pandemig i gyflawni gwaith heb ganiatâd cynllunio pan yr oedd swyddogion gorfodi'r Awdurdod Cynllunio Lleol wedi'u hoedi gan y cyfnod clo a chyfyngiadau teithio. Roedd y mwyafrif (22 achos) yn Sir Ddinbych, 8 yn Sir y Fflint ac 1 yn Wrecsam. Roedd cyfran sylweddol o'r achosion hyn yn ymwneud â gweithrediadau peirianeg, gwaith mynediad a symud pridd, ond hefyd roedd achosion o newid defnydd, storffeydd allanol, cabanau gwyliau / iyrtau, llety newydd i gŵn, estyniadau ac addasiadau, gwaith ar goed, gwyro o gynlluniau a gymeradwywyd neu fethiant i gydymffurfio ag amodau. Yn ogystal, sefydlwyd gwersyll teithwyr heb awdurdod y tu allan i'r AHNE yn Nant y Ffrith ger Llandegla. Mae materion gorfodi fel rheol yn gymhleth iawn ac mae'n cymryd cryn amser i'r awdurdodau cynllunio ymchwilio iddynt a'u datrys. Mae nifer o achosion heb eu datrys eto.

Ymgynghoriadau Polisi/Strategol

13. Nifer yr ymgynghoriadau polisi a strategol a gyfeiriwyd at yr AHNE yn 2020-21 oedd 6, a oedd yn ostyngiad mewn gweithgarwch dros y blynyddoedd blaenorol. Yn ystod y flwyddyn, amharwyd yn sylweddol ar waith polisi'r cyrff cyhoeddus oherwydd pandemig

Covid-19 gan y bu'n rhaid i lawer droi eu sylw at ymateb i'r argyfwng iechyd y cyhoedd. Fodd bynnag, ymatebodd yr AHNE i ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru ar *Ansawdd Aer a Seinwedd: Adolygiad o TAN 11* a'r *Cynllun Atal Sbwriel a Thipio Anghyfreithlon ar gyfer Cymru*. Yn ogystal, cyflwynwyd sylwadau i *Ymgynghoriad Polisi Awyr Dywyll* y Grŵp Seneddol Hollbleidiol.

Gweithgor Cymeriad Tirwedd ac Amgylchedd Adeiledig

14. Mae Gweithgor Cymeriad Tirwedd ac Amgylchedd Adeiledig yr AHNE yn arwain ar faterion cynllunio a datblygu sy'n effeithio ar yr AHNE. Mae'r grŵp fel arfer yn cwrdd tair neu bedair o weithiau yn ystod y flwyddyn ond yn ystod 2020-21, dim ond un waith y cyfarfu'r grŵp oherwydd i gynnydd arafu o ganlyniad i'r pandemig. Roedd hwn yn gyfarfod ar-lein a oedd yn cynnwys ystyried a chymeradwyo'r Canllawiau Cynllunio Atodol Awyr Dywyll AHNE *Cynllunio ar gyfer Awyr Dywyll* ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus. Gwnaed hyn yn ogystal â'r adolygiad arferol o ymgynghoriadau cynllunio a datblygu. Bu i'r grŵp hefyd ystyried cydymffurfio cynllunio a materion gorfodi cyfredol a mynegwyd pryder ynglŷn â'r cynnydd mewn datblygiad heb awdurdod a oedd, yn ôl pob golwg, wedi digwydd ar draws yr AHNE yn ystod y cyfnod clo. Bu i'r gweithgor gefnogi dwy fenter arall sydd ar gam cynnar ac yn ymwneud â Chynllun Rheoli'r AHNE. Bwriad y rhain yw gwneud cyfraniad cadarnhaol ac ymarferol at gadw a gwella cymeriad ac edrychiad yr AHNE a chynnwys adolygiad arfaethedig o Orchmynion Diogelu Coed a chanllaw dylunio priffyrdd newydd i'w baratoi mewn partneriaeth â'r awdurdodau priffyrdd lleol.